Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch cwtsh y Lawnt**

**Ysgol y Lawnt**
**The Lawn Rhymney**
**Tredegar**
**NP22 5LS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/07/2023

## Cylch cwtsh y Lawnt

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Danielle Rudd |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae’r plant yn hapus ac wedi ymgysylltu yn y lleoliad. Maent yn meithrin cydberthnasau agos a chynnes â'r staff a'r plant eraill. Maent yn rhyngweithio mewn ffordd braf â'i gilydd ac yn dysgu i gydweithredu drwy gymryd eu tro a rhannu. Mae'r plant yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad da ac yn dangos sgiliau annibyniaeth da.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn broffesiynol, yn meddu ar y cymwysterau priodol ac yn mwynhau eu gwaith. Mae'r staff yn garedig, yn ofalgar ac yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Darparant weithgareddau chwarae addas i ddatblygu medrau’r plant a dilyn eu diddordebau.

Mae’r safle yn ddiogel, ac yn cael eu cynnal yn addas. Mae asesiadau risg a rhestrau gwirio dyddiol yn eu lle; fodd bynnag, mae angen adolygu'r rhain. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu adnoddau addas i ddiwallu anghenion y plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig i wneud gwelliannau ac mae ganddynt weledigaeth dda ar gyfer y dyfodol. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith a chaiff cofnodion eu cadw. Mae'r partneriaethau gyda'r rhieni a’r ysgol yn dda iawn.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae’r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Maent yn adnabod y staff yn dda ac yn barod i fynd atynt i gael cyfarwyddyd neu gysur. Mae gan y plant ymdeimlad da o berthyn ac maent yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd. Gwyddant pa adnoddau sydd ar gael iddynt a lle gallant chwarae. Maent yn mwynhau amser cinio cymdeithasol, gan sgwrsio'n hapus gyda'u ffrindiau a'u staff.

Gall y plant wneud eu dewisiadau ac mae'r staff yn gwrando arnynt. Gallant ddewis eu gweithgareddau, ac maent yn gwybod y byddant yn cael help neu gymorth os byddant yn gofyn amdano. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn am gymorth i wisgo dol roedd yn chwarae â hi. Anogir y plant i leisio eu hoffterau, ac mae hyn yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel. Mae'r plant yn teimlo'n hyderus ac yn datblygu hunan-barch, gan fynegi boddhad â'r amrywiaeth da o adnoddau chwarae a dysgu sydd ar gael iddynt.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Gallant aros eu tro pan fydd y staff yn gweini ffrwythau a dŵr iddynt, gan ddiolch i'r staff am eu bwydydd a'u diodydd. Mae'r plant yn gwneud ffrindiau yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Mae nifer yn chwarae’n hapus gyda'i gilydd neu ochr yn ochr â'i gilydd. Gwelsom y plant yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cludo ei gilydd o amgylch yr iard chwarae ar feic tandem. Anogir y plant i fod yn garedig ac ystyriol tuag at eu cyfoedion. Maent yn dysgu sut i gymryd eu tro a rhannu yn ystod y gweithgareddau.

Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau a gaiff eu cynnig. Maent yn rhydd i archwilio eu hamgylchedd a threulio amser ar weithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau priodol o amser yn ystod gweithgareddau crefft, chwarae dychmygus a gemau. Mae'r plant yn chwilfrydig ac yn awyddus i ddangos i'r oedolion beth maent yn ei ddysgu. Er enghraifft, roedd rhai o'r plant eisiau dangos y glöynnod byw i ni ac roeddent yn sgwrsio’n hapus amdanynt. Mae llawer o'r plant yn awyddus i ymuno mewn sesiynau grŵp ac ymgysylltu â'r staff yn ystod gweithgareddau holi oedolion.

Anogir y plant i wneud cymaint drostynt eu hunain â phosibl. Maent yn tacluso ar ôl chwarae ac amser bwyd. Maent yn naturiol yn ceisio gwneud pethau'n annibynnol cyn i'r staff ymyrryd, megis cau sipiau eu cotiau eu hunain a chasglu eu heiddo. Maent yn defnyddio'r cyfleusterau toiled yn hwylus ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol.

## **Gofal a Datblygiad** **Digonol**

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn ymwybodol o'r polisi diogelu a'u dyletswydd i adrodd am bryderon i'r person cofrestredig. Maent hefyd yn ymwybodol o’u dyletswydd unigol i adrodd i dîm diogelu’r awdurdod lleol pe bai angen. Mae'r staff yn cadw cofnodion yn ymwneud â damweiniau a digwyddiadau sy'n cael eu llofnodi gan y rhieni. Maent yn cynnal hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, gan eu galluogi i ddelio â mân ddamweiniau yn hyderus. Mae'r staff yn hybu bwyta'n iach drwy baratoi byrbryd iach dyddiol, a chynigir llaeth a dŵr i'w yfed. Maent yn dweud wrthym eu bod wedi cofrestru ar gyfer menter bwyta'n iach i gefnogi'r plant a'r teuluoedd ymhellach yn y dyfodol. Mae’r staff yn hyrwyddo lles corfforol y plant yn llwyddiannus drwy ymarfer corff rheolaidd a chwarae yn yr awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn cael hyfforddiant hylendid bwyd perthnasol ac yn dilyn gweithdrefnau glanhau cywir fel rhan o'r broses rheoli heintiau er mwyn helpu i gadw'r plant yn iach ac yn ddiogel. Cwblhaodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad archwiliad rheoli heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod yr arolygiad. Gan weithio gyda'r staff, maent wedi nodi llawer o feysydd cryfder ac ychydig o feysydd datblygu maent wedi dechrau mynd i'r afael â hwy.

Mae'r staff yn trin y plant gydag urddas a pharch. Maent yn sensitif i anghenion y plant, gan ddarparu gofal a chynhesrwydd. Maent yn cofleidio'r plant pan fydd angen er mwyn rhoi cysur a thawelwch meddwl. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda sy'n eu galluogi i ymateb i'w hanghenion a'u hoffterau. Yn ystod yr arolygiad, ymatebodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad i adborth ar y polisi rheoli ymddygiad. Gwnaethant adolygu a diweddaru’r polisi i gynnwys manylion am fwlio ac maent wedi darparu copi i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol drwy ganmol a defnyddio iaith gadarnhaol. Mae mwyafrif y staff yn fedrus wrth weithredu'r strategaethau hyn ac yn gyson yn eu hymagwedd wrth ymdrin ag unrhyw ymddygiad heriol. Er enghraifft, gwelsom y staff yn siarad yn dawel gyda phlentyn yn egluro beth sydd angen digwydd nawr a nesaf. Maent yn canmol dewisiadau ac ymddygiad da y plant gan ddefnyddio iaith gadarnhaol a sticeri gwobrwyo.

Mae gan y staff wybodaeth addas am ddysgu yn seiliedig ar chwarae ac maent yn cynllunio rhai gweithgareddau i ddatblygu sgiliau. Maent yn cefnogi'r plant wrth chwarae. Mae'r plant yn mynd i'r ysgol gynradd Gymraeg ac mae'r staff yn sicrhau eu bod yn hyrwyddo'r Gymraeg bob amser. Mae llawer o'r staff yn llwyddo i drochi'r plant yn y Gymraeg mewn ffordd fedrus drwy ganeuon a straeon a thrwy weithgareddau â phwyslais penodol fel y gofrestr ddyddiol. Wrth gyfathrebu, defnyddir y Gymraeg yn gyntaf, ond gan gynnig y cyfieithiad Saesneg os bydd ei angen, er mwyn diwallu anghenion y plant. Mae llawer o'r staff yn hyrwyddo dysgu'r plant drwy gwestiynau priodol. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd chwarae gofynnodd y staff gwestiynau addas fel “*What colour is that?”* Yn ystod amser byrbryd, maent yn manteisio ar gyfleoedd i atgyfnerthu iaith fel *“Ga i help?”* a *“Diolch”*. Yn ystod gweithgaredd grŵp, mae'r plant yn cymryd eu tro i ddewis a thrafod gwrthrych ac yn cael cyfleoedd i ymateb i gwestiynau oedolion a rhannu profiadau.

## Yr Amgylchedd **Digonol**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r lleoliad yn nosbarth meithrin Ysgol y Lawnt. Daw'r ymwelwyr i mewn i'r lleoliad drwy brif giât yr ysgol gan ddefnyddio system intercom a llofnodi yn y dderbynfa. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn cadw cofnod ar wahân o'r ymwelwyr yn y lleoliad. Mae hefyd yn ofynnol i'r staff lofnodi i mewn yn y dderbynfa a gall yr arweinydd gyrchu'r wybodaeth hon pan fo angen. Rhoddwyd system ar wahân ar waith yn ystod yr arolygiad ar gyfer cofnodi presenoldeb y staff sy'n benodol i'r lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu ymarferion tân. Cofnodir amseroedd a dyddiadau'r ymarferion hyn a chânt eu gwerthuso. Caiff deunyddiau glanhau eu storio'n ddiogel allan o gyrraedd y plant. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer ardaloedd dan do ac awyr agored, ac mae'r rhain yn llywio'r rhestrau gwirio dyddiol a gofnodir gan y staff. Fodd bynnag, nid ydynt yn nodi'r holl risgiau diangen i'r plant a chyn belled ag y bo modd, maent yn dileu'r rhain. Mae awdurdodau'r ysgol yn gyfrifol am yr holl waith cynnal a chadw ac am wasanaethu cyfleustodau ac yn rhannu gwybodaeth gyda'r lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Mae gan y plant o le i chwarae a dysgu mewn un ystafell fawr yn ogystal ag ardal awyr agored bwrpasol. Mae toiledau’r plant yn hawdd eu cyrraedd ac yn darparu  ar gyfer preifatrwydd ac urddas y plant. Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn darparu lle bach, pwrpasol i blant gael amser tawel i ymlacio ar soffas y plant. Fodd bynnag, prin yw'r lle sydd ar gael i ddiwallu'r angen am amseroedd gorffwys a chysgu wrth iddynt symud i ddarparu oriau agor hwy yn y dyfodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ystod o adnoddau ar gael mewn amgylchedd chwarae. Mae cynllun yr ardal hon yn caniatáu i'r plant archwilio'n rhydd, a gall y plant gael mynediad i'r mwyafrif o offer sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn darparu offer ac adnoddau sy’n briodol ar gyfer oedran a chyfnodau datblygiad y plant. Mae'r adnoddau yn hybu chwilfrydedd a darganfod. Mae datblygiad personol a chymdeithasol y plant hefyd yn cael ei wella drwy gael mynediad at deganau a llyfrau amlddiwylliannol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi digon o gyfleoedd i'r plant chwarae'n egnïol yn yr ardal awyr agored bwrpasol. Mae hyn yn ymestyn eu dysgu a'u datblygiad. Mae'r plant yn edrych ymlaen at chwarae ar y beiciau ac adeiladu cyrsiau rhwystrau gan ddefnyddio blociau a theiars.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth **Da**

Mae trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cysylltu ag AGC yn amserol. Maent yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol ac yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith a chaiff cofnodion eu cadw. Fodd bynnag, nid yw rhai polisïau yn adlewyrchu'r arfer mwyaf cyfredol ac nid yw'r lleoliad wedi cadw cofnodion y staff. Mae'r lleoliad wedi newid yn ddiweddar i ddarparu gofal dydd llawn. Mae hyn mewn ymateb i geisiadau'r rhieni am ofal dros wyliau'r haf sydd ar ddod a gwyliau ysgol dilynol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cofnodion y plant yn cael eu cadw a'u llofnodi gan y rhieni. Mae'r rhain yn cynnwys contractau, caniatadau, ffurflenni gwybodaeth ac anghenion unigol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwbl ymroddedig i wella ac wedi croesawu eu harolygiad llawn cyntaf fel rhan annatod o'u hunanarfarnu a'u cynllunio ar gyfer gwella. Maent yn barod i dderbyn adborth a gweithredu ar faterion a ddaw i'w sylw yn ddi-oed. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethant nifer o welliannau megis cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a darparu cynllun gweithredu hyfforddiant y staff. Maent ar hyn o bryd yn y broses o gyfieithu dogfennau a pholisïau allweddol i'r Gymraeg, ac, wrth wneud hynny, yn gweithio tuag at ddarparu'r cynnig rhagweithiol Cymraeg yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod digon o staff cymwysedig i ofalu am y plant a bod y gymhareb rhwng yr oedolion a'r plant yn cael ei chynnal bob amser. Maent yn sicrhau bod gan y staff dystysgrifau hyfforddi gorfodol a bod gan bob aelod o'r staff dystysgrif datgelu a gwahardd gyfredol. Mae gan y staff y profiad a'r cymwysterau priodol, ac mae proses sefydlu ar waith ar gyfer y staff newydd. O ganlyniad, mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn myfyrio ar arferion ac maent yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r staff fel rhan o'r broses hon. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i'r staff gynnig eu barn yn anffurfiol, mewn cyfarfodydd staff, ac mewn sesiynau goruchwylio un-i-un. Dywedodd y staff wrthym fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hawdd mynd atynt, yn gefnogol, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau diwylliant cadarn o ddatblygiad proffesiynol parhaus o fewn y lleoliad ac mae llawer o'r staff yn dilyn hyfforddiant pellach ar hyn o bryd.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith er na dderbyniwyd unrhyw gwynion. Mae'r partneriaethau â'r rhieni, y gofalwyr a'r ysgol yn gryf. Mae'r rhieni'n canmol y lleoliad yn fawr ac yn gadarnhaol iawn am yr arweinydd, y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei gael. Dywedodd llawer o'r rhieni wrthym eu bod o'r farn bod y staff wedi diwallu anghenion unigol eu plant ac y byddent yn argymell y lleoliad i eraill.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod cofnodion staff sy'n gofalu am y plant yn cael eu cadw. |
| Safon 24 - Diogelwch | Adolygu asesiadau risg a sicrhau eu bod yn ddogfennau gwaith sy'n llywio'r rhestr wirio ddyddiol ar gyfer rheoli risg yn llawn. |
| Safon 22 - Yr amgylchedd | Sicrhau bod cyfleusterau gorffwys yn bodloni gofynion gofal dydd y safonau gofynnol cenedlaethol. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Adolygu polisïau a sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r arfer mwyaf cyfredol a'u bod ar gael yn Gymraeg. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/08/2023